**Tasg 2**

# Stori

Ydych chi wedi cael gwylan yn ymosod arnoch chi wrth fwyta sglodion neu hufen iâ ar lan y môr? Fel arfer, dyna'r prif reswm pam nad yw pawb yn hoffi gwylanod! Ond, faint ydych chi'n ei wybod amdanyn nhw?

Wel, beth am i chi drio penderfynu pa rai o'r ffeithiau yma sy'n gywir?:

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Aderyn sy'n cael ei gysylltu â lan y môr yw'r wylan. | ☐ | ☐ |
| Ar gyfartaledd, mae gwylanod yn pwyso rhwng 2 a 3kg. | ☐ | ☐ |
| Mae'r wylan yn bwyta pysgod a chig. | ☐ | ☐ |
| Mae gwylanod yn hoffi byw ar eu pennau eu hunain yn hytrach nag mewn grwpiau mawr. | ☐ | ☐ |
| Mae'r wylan yn bwyta anifeiliaid wedi marw a sbwriel. | ☐ | ☐ |
| Mae gwylanod yn hoffi byw yn y jwngwl, ar ben mynyddoedd ac yn yr anialwch hefyd. | ☐ | ☐ |
| Mae'r wylan yn lladd a bwyta crancod trwy hedfan yn uchel a'u gollwng ar y creigiau fel bod y crancod yn torri'n ddarnau. | ☐ | ☐ |
| Pan fydd ffermwr yn aredig, mae'r wylan yn dod i mewn i'r tir i fwyta mwydon a chynrhon sy'n dod i'r wyneb. | ☐ | ☐ |
| Dydy gwylanod ddim yn yfed dŵr hallt o'r môr. | ☐ | ☐ |
| Dim ond ym Mhrydain mae'n bosib gweld gwylanod. | ☐ | ☐ |
| Mae Dafydd ap Gwilym wedi ysgrifennu englyn o'r enw Yr Wylan. | ☐ | ☐ |
| Mae dros gant o fathau gwahanol o wylanod. | ☐ | ☐ |
| Mae gwylanod yn dwyn bwyd oddi wrth ei gilydd. | ☐ | ☐ |

| | | |
|---|---|---|
| Hoff fwyd gwylanod yw hadau a chnau. | ☐ | ☐ |
| Mae gwylanod yn ganibaliaid – maen nhw'n bwyta eu rhai bach weithiau. | ☐ | ☐ |
| Mae'r wylan yn dod i mewn i'r tir o lan y môr pan fydd tywydd drwg ar y ffordd. | ☐ | ☐ |
| Adar twp iawn yw gwylanod. | ☐ | ☐ |
| Mewn rhai gwledydd, mae'r wylan yn symbol o ryddid. | ☐ | ☐ |
| Mae gan rai mathau o wylanod blu coch. | ☐ | ☐ |
| Gall gwylanod bwyso hyd at 1.8kg. | ☐ | ☐ |
| Mae gwylanod i'w gweld ar bob cyfandir o'r byd, yn cynnwys Antarctica. | ☐ | ☐ |
| Mae hyd at hanner cant o fathau gwahanol o wylanod. | ☐ | ☐ |
| Bydd gwylanod yn cael sawl partner gwahanol yn ystod eu hoes. | ☐ | ☐ |
| Mae rasys gwylanod yn boblogaidd mewn nifer o wledydd. | ☐ | ☐ |
| Yr enw ar grŵp o wylanod yw **haid**. | ☐ | ☐ |
| Gall lliw pig a choesau mathau gwahanol o wylanod fod yn llwyd, oren, coch, pinc, melyn neu ddu. | ☐ | ☐ |
| Cafodd gwraig o Loegr ei harestio am greulondeb yn 2017 am fynd â gwylan am dro ar dennyn. | ☐ | ☐ |
| Mae gwylanod yn ymfudo i wledydd cynnes yn ystod y gaeaf. | ☐ | ☐ |

